

Trosolwg

Wednesday, December 18, 2019 2:04 PM

Côd a theitl y modiwl: **ECAD6008C Arwain y Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?**

Enw: **Matthew Kerrith Tucker**

Rhif Myfyriwr: **1304488**

Llwybr: **TAR Uwchradd**

Pwnc/Maes Dysgu a Phrofiad: **Cymraeg/leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Dyddiad cyflwyno'r aseiniad: **6ed o Ionawr 2020**

Dolen i'r ddogfen 'OneNote': https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1304488_student_uowtsd_ac_uk/ErhXAFNd4UFGnZl2eblGfe4BSZw4Dsd-LG8C6nrwe5xkNA?e=7xEXRM

Asesu ar gyfer Dysgu

Wednesday, December 18, 2019 2:04 PM

Cysylltir yr adran hon gydag egwyddor 7 o restr egwyddorion addysgegol Donaldson (2015:64-71), sef: 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.'

Hunanasesu'r Llythyr Yr athro i'w tywys trwy rhan gyntaf y dasg, sef mynd ati i uwch-oleuo/lliwio agweddau'r meini prawf llwyddiant megis allwedd. Yr athro i esbonio mai priif ran y dasg yw craffu ar eu gwaith eu hun yn eu llyfrau gwaith gan uwch-oleuo'r nodweddion gwahanol yn eu llythron er mwyn gwirio a ydynt wedi bwrw pob elfen o'r <u>m.p.ll</u> a drafodwyd yn y wers flaenorol. *Mae'r disgyblion yn gyfarwydd gyda'r broses hon, ond yr athro i sicrhau dealltwriaeth pawb cyn eu rhoi ar dasg* Asesu Cyfoedion Yr athro i esbonio mai tasg y disgyblion yw i graffu ar waith eu cyfoedion gan ei wirio cyn nodi dwy seren (llwyddiannau) a tharged	Disgyblion i fynd yn ôl at eu llythron gan graffu'n fanwl arnynt – disgyblion i liwio/uwch-oleuo nodweddion y <u>m.p.ll</u> sydd yn ymddangos yn eu gwaith gan ddilyn yr allwedd a grëwyd ganddynt ar y daflen. Disgyblion i gyfnewid llyfrau gyda'r disgybl drws nesaf iddynt.
--	---

Gwers Gymraeg Blwyddyn 7 Iaith Gyntaf (Set 1) - 22.11.19

Testun y wers: Hunanasesu ac Asesu Cyfoedion ynghylch y dasg llythyr ffurfiol

Yn dilyn llunio'u drafftiau cyntaf o'r llythyr ffurfiol, roedd y wers hon yn canolbwyntio ar hunanasesu'r disgyblion gan graffu ar y meini prawf llwyddiant. Yn dilyn yr hunanasesu, roeddent yn asesu cyfoedion ar y dasg cyn nodi 2 seren a dymuniad ar gyfer y drafft terfynol. Y dasg nesaf bydd uwchraddio ac ailddrafftio'u llythron gan weithredu'r cywiriadau a'r dymuniadau.

AutoSave On 8 IG (4) 12.1... - Last Modified: 12/12/2019 Search

File Home Insert Design Layout References Mailings Review View Help

Clipboard Font Paragraph Styles Editing Voice Sensitivity

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Croesawu'r disgyblion i'r dosbarth – gosod pamffledi sefydliadau amrywiol ar y desgiau. Adolygu 'Berfau Gorchmynnol' o'r wers flaenorol: <u>Kahoot</u> cyflym fel taniwr. A yw'r disgyblion yn <u>cofio</u> 'r berfau? Faint sgoriodd pob disgybl erbyn diwedd y cwis?	Disgyblion i ddefnyddio'u ffonau er mwyn ateb cwestiynau'r <u>Kahoot</u> – disgyblion yn derbyn sgôr ar ddiwedd y cwis. Athro'n medru asesu'u dealltwriaeth wrth graffu ar pob sgôr.	Pamffledi amrywiol Ffôn Symudol ar y plentyn (os nad oes un gan blentyn, gallent weithio mewn parau yn ystod y cwis) I&D: sicrhau bod pob bag ymhell o dan y ddesg trwy gydol y wers, ac nad oes unrhyw bethau'n rhydd ar lawr y dosbarth.
30 munud Addysgu a Dysgu Craidd	Yr athro i gyflwyno ffocws a nod y wers: Beth yw nodweddion pamffled effeithiol a'r pethau i'w hosgoi yn eich pamffledi chi. Tasg 1: Map Meddwl – beth yw nodweddion pamffled effeithiol? Athro i ddosbarthu taflen map meddwl i'r disgyblion. (10 munud)	Disgyblion i ysgrifennu gwaith dosbarth, dyddiad a nod y wers yn eu llyfrau gwaith. Disgyblion i feddwl yn unigol am ddau funud – disgyblion i drafod ar lefel ddosbarth cyn nodi'r pwyntiau a drafodwyd ar eu mapiau meddwl. *Bydd y pamffledi amrywiol yn actio fel ffynonellau i ysgogi'r meddwl.*	<u>Powerpoint</u> Llyfrau Gwaith Taflen waith map meddwl <u>Powerpoint</u> Pamffledi amrywiol

Page 3 of 6 899 words English (United Kingdom)

Gwers Gymraeg Blwyddyn 8 Iaith Gyntaf (Set 4) - 12.11.19

Testun y wers: Beth yw nodweddion pamffled effeithiol?


Pwrpas y Kahoot oedd adolygu'r gwaith a wnaed ar ferfau gorchmynnol o'r wers flaenorol.

Roedd hyn yn fodd hwylus o wneud hynny, ac roedd y disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol.

Teimlais yr oeddent wedi gwneud cynnydd o ran eu dealltwriaeth, byddai ail-ymweld gyda'r

Kahoot neu lunio Kahoot newydd wedi bod yn fuddiol yn fy marn i wrth ddyfnhau'r

dealltwriaeth.



Gwers Gymraeg Blwyddyn 8 Iaith Gyntaf (Set 4) - 22.11.19

Testun y wers: Datblygu Sgiliau Darllen

Wrth gyflawni'r dasg hon, defnyddiais amseredd ar y sgrin o flaen y disgyblion. Teimlais yr oedd

hyn wedi gwrthio'r disgyblion llai gweithgar yn fwy, ac yr oeddent wedi gweithio'n galed i orffen

y dasg. Wrth ofyn am atebion disgyblion, defnyddiais olwyn enwau ar y sgrin - roedd hyn wedi

hwyluso'r broses o adborth ac yr oedd y disgyblion yn barod iawn i ymateb pan oeddent yn cael

eu dewis.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Wednesday, December 18, 2019 2:04 PM

Cysylltir yr adran hon gydag egwyddor 9 o restr egwyddorion addysgegol Donaldson (2015:64-71), sef: 'Trwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer'.

LLYTHRENNEDD



20191228_203802



20191228_203821

Gwers Gymraeg Blwyddyn 9 Iaith Gyntaf (Set 1) - 29.11.19

Testun y wers: Dadansoddi enghreifftiau o agoriad ymson

Y dasg ar gyfer y disgyblion oedd mynd ati ac uwchleuo unrhyw eiriau anghyfarwydd o'r ddau destun. Gosodwyd y cyfrifoldeb o ddefnyddio geiriaduron ar eu liwt eu hun er mwyn canfod ystyr a diffiniad pob gair. Canmolwyd yr elfen hon o'r wers wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a stor eirfa'r disgyblion mewn modd annibynnol heb lawer iawn o fewnbwn gan yr athro - roedd y disgyblion yn weithgar iawn.



Darn
Darllen C...

Gwers Gymraeg Blwyddyn 8 Iaith Gyntaf (Set 4) - 22.11.19

Testun y wers: Datblygu Sgiliau Darllen

Dyma oedd priif ffocws y wers. Roedd y dasg hon yn targedu gwella sgiliau darllen a chywain gwybodaeth y disgyblion. Yn ogystal a hynny, roedd y dasg yn datblygu gwybodaeth y disgyblion ynghylch pwrpas darnau darllen a thechengau awduron. Ymatebodd y disgyblion yn gadarnhaol a nododd fy mentor pwnc, yr athro dosbarth, bod y disgyblion yn sicr wedi gwneud cynnydd.

RHIFEDD

The screenshot shows a Microsoft Word document with a table containing Welsh text. The table has four columns and two rows of content. The first column is titled 'Craidd' and the second 'Holiadur Cyd-ddisgyblion'. The third and fourth columns contain descriptive text. Red circles highlight specific parts of the text in the second and third columns.

Craidd	Holiadur Cyd-ddisgyblion	Disgyblion i fynd o gwmpas y dosbarth yn holi'u cyd-ddisgyblion a nodi'r atebion ar y daflen gwestiynau sydd ganddynt.	Tafleini cwestiynau Beiro i gofnodi atebion
	Yr athro i ddosbarthu tafleini cwestiynau i'r disgyblion nodi'u pedwar cwestiwn. Yr athro i	osod amserydd ar y bwrdd gwyrdd o 15 munud ar gyfer y dasg holi. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn ddefnyddiol ar gyfer cynnwys yn y eu llythyr, felly'r athro i annog cydymffurfiaid y disgyblion i'r dasg ac nid i sgwrsio.	Amserydd ar-lein: 15 munud o hyd I&D: Wrth wneud y dasg holiadur, sicrhau bod pob cadair yn ôl o dan y desgiau a bod disgyblion yn symud o gwmpas y dosbarth yn drefnus ac yn aeddfed rhag baglu neu wrthdaro.
	Wedi i'r 15 munud ddod i ben, yr athro i wahodd y disgyblion i fynd yn ôl i'w seddi'n drefnus. Yr athro i roi amserydd 7 munud ar y	Disgyblion i goladu'r data gan arddangos y data ar ffurf ffractsiynau neu ganrannau. Bydd angen iddynt gofnodi'r ffactsiynau yn glir ar eu tafleini	Amserydd ar-lein: 7 munud o hyd

Gwers Gymraeg Blwyddyn 7 Iaith Gyntaf (Set 1) - 14.11.2019

Testun y wers: **Holiadur i gasglu barn cyd-ddisgyblion** + creu sgerbwd ar gyfer llunio llythyr ffurfiol yn mynegi barn am y wisg ysgol

Y dasg a osodwyd i'r disgyblion yn y wers hon oedd mynd ati i holi'u cyd-ddisgyblion er mwyn casglu eu barn a'u defnyddio fel dystiolaeth ar gyfer ei chynnwys yn eu llythyr. Wedi i'r amser ddod i ben, eu dasg oedd i goladu'r data a thro'i'r ffigurau i ffractsiynau a chanrannau er mwyn hwyluso'r ffordd y maent yn defnyddio'r dystiolaeth wrth ysgrifennu'u llythyr. O ran yr adbornth a dderbyniais oddi wrth yr athrawes ddosbarth, nodwyd efallai fy mod wedi gosod

gormod o amser i'r disgyblion gwblhau'r dasg a oedd wedi arwain at wroddi ar dasg neu segurdod o blith y disgyblion.

Cymysgedd o ddulliau sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

Wednesday, December 18, 2019 2:04 PM

Cysylltir yr adran hon gydag egwyddor 4 o restr egwyddorion addysgegol Donaldson (2015:64-71), sef: 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.'



Agoriad
ymson

Gwers Gymraeg Blwyddyn 9 Iaith Gyntaf (Set 1) - 29.11.19

Testun y wers: Gwerthuso agoriad ymson

Bwriad y dasg hon oedd annog y disgyblion i werthuso'r enghreifftiau gan nodi rhagoriaethau a gwendidau'r testunau. Roedd y disgyblion yn weithgar iawn wrth gyflawni'r dasg ac yn frwd iawn wrth gynnig ymatebion. Nodwyd yn yr adborth oddi wrth yr athro dosbarth y gallaf wedi herio'r disgyblion mwy i drafod effeithiolrwydd/arwyddocad y testun a sut y byddent wedi gwella'r darnau.



Cymeriadau
Culhwch ...

Gwers Gymraeg Blwyddyn 7 Iaith Gyntaf (Set 1) - 28.11.19

Ffocws y wers: Culhwch ac Olwen - chwedl a chymeriadau

Roedd y dasg hon yn gofyn i'r disgyblion droi prif olygfeydd y chwedl i gyfres o ddelweddau. Bwriad y dasg oedd datblygu elfen creadigol a beirniadol y disgyblion gan roi cyfrifoldeb ar y disgyblion ddethol y golygfeydd yn unigol. Ymatebodd y disgyblion yn gadarnhaol a nododd yr athro dosbarth fod y dasg wedi crynhoi'r chwedl yn effeithiol gan arddangos dealltwriaeth y disgyblion.

Gwers Gymraeg Blwyddyn 9 Iaith Gyntaf (Set 1) - 15.11.19

Testun y wers: Sbarduno'r Synhwyrâu

Bwriad y dasg hon oedd i'r disgyblion wyllo fideo ar lafur plant er mwyn iddynt weld a dod i ddeall y testun yn well. Yn anffodus cafwyd problemau technolegol felly nid oedd modd dangos y fideo, defnyddiwyd y llun fel sbardun yn lle hynny. Gosodwyd iddynt dasg o feddwl am gymaint o ansoddeiriau a allent er mwyn disgrifio'r olygfa - anogwyd iddynt sylwi ar y cyffredinol cyn symud at fwy o fanylion bychain o'r llun. Wedi hynny, lluniwyd map meddwl yn nodi'r synhwyrâu h.y. beth oedd i'w gweld, clywed ac ati? Roedd y disgyblion yn frwd iawn wrth ymateb a chynigiwyd toreth o atebion manwl a gwreiddiol.

Adfyfyrion Beirniadol

Wednesday, December 18, 2019 2:07 PM

ADFIFYRIO BEIRNIADOL

1. CYFLWYNIAD

Fy mwriad i yn y traethawd hwn yw rhoi ffocws ar yr egwyddorion addysgegol a amlinellwyd gan yr athro Donaldson yn ei adroddiad '*Dyfodol Llwyddiannus*' (2015, 64-71). Yn benodol, rwyf am ganolbwyntio ar dair egwyddor ymhlith cynnwys y traethawd, sef y canlynol:

- Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.
- Trwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.
- Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.

Wrth drafod yr egwyddorion uchod, byddaf yn adfyfyrion ar fy mhrofiadau addysgu yn ystod fy nghyfnod yn fy ysgol leoliad (cyfeirir at yr ysgol fel 'Ysgol X' yng nghynnwys y traethawd) a'r profiad o fynd ati i roi'r egwyddorion ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r deuddeg egwyddor a gynigiwyd gan Donaldson yn cyfrannu tuag at gyflwyno profiadau addysgu a dysgu cyfannol o fewn yr amgylchedd ddosbarth, ond teimlaf bod y tair egwyddor a ddewiswyd gennyf yn allweddol wrth ystyried fy mhwnc arbenigedd a'm cryfderau i o fewn y pwnc hwnnw ac yr wyf am ddatblygu fy ngwybodaeth a'm harferion wrth weithredu'r egwyddorion trwy gydol fy mhrofiadau addysgu.

2. ADOLYGIAD A THRAFODAETH LENYDDOL

Rhoddir sylw penodol at drafod y testunau llenyddol a gyhoeddwyd ar gyfer y tair egwyddor yn yr adran hon. Rhennir yr adran yn dair is-ran er mwyn trafod yr egwyddorion yn eu tro.

1. Asesu ar gyfer Dysgu

Gellir defnyddio dau derm wrth gyfeirio at yr egwyddor hon: 'asesu ar gyfer dysgu' neu 'asesu ffurfiannol'. Byddaf yn defnyddio'r ddau derm yn eu tro wrth drafod y llenyddiaeth yn y rhan hon.

Wrth ddiffinio 'asesu ffurfiannol', cyfeiria Dixon a Worrell (2016) at Black a Wiliam (1998:82) wrth nodi eu bod yn ddull a ddefnyddir gan athrawon – a disgyblion wrth hunanasesu – sydd yn cynnig gwybodaeth i'w defnyddio ar gyfer adborth er mwyn diwygio'r addysgu a dysgu. Cynigia Black et al (2007:2) bod 'asesu ffurfiannol' yn medru cynnwys nifer o ddulliau er mwyn annog disgyblion i arddangos yr hyn sydd ar eu meddyliau a nifer o ffyrdd o weithredu ar y dystiolaeth a gasglwyd. Yn ychwanegol i hynny, nodant fod angen i'r asesu yma gael ei reoli gan athrawon unigol, a bod y 'diwygio' a grybwyllwyd gan Dixon a Worrell (2016) yn rhan allweddol o rôl ddyddiol yr athro.

Elfen ganolog o 'asesu ar gyfer dysgu' yw adborth, ac mae Fautley a Savage (2008:46) yn trafod adborth ffurfiannol yn hytrach na defnyddio graddau crynodol. Nodant bod adborth ar ffurf sylwadau yn tynnu'r sylw oddi ar unrhyw farc neu radd, ac ei fod yn arwain at ddisgyblion yn canolbwyntio ar y sylwadau a'u bônt yn addasu eu gwaith yn briodol o ganlyniad i hynny.

Mae Black et al (2007:31) yn trafod effeithiolrwydd rhannu amcanion a meini prawf wrth ystyried adborth ar gyfer tasg. Dywedant fod 'maen prawf' yn cynrychioli'r fframwaith oddi ar le mae'r athro yn medru rhoi sylwadau perthnasol er mwyn

trosglwyddo gwybodaeth i ddisgyblion ynghylch eu cyrhaeddiad a'u cynnydd. Yn yr un modd, â Fautley a Savage (2008:47) yn eu blaenau i nodi y dylai athro fod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn waith o safon uchel, gan ei rannu gyda'r disgyblion ar ffurf amcanion a meini prawf. Dylent hefyd nodi amcanion clir a gwerthuso'r dysgu yn rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw wagle yng ngwybodaeth y disgyblion.

Cynigia Dixson a Worrell (2016) fod yna ddau brif wedd i 'asesu ffurfiannol', sef: asesu digymell ac asesu wedi'i gynllunio. Nodant fod yr elfen ddigymell yn ddull o gynnig adborth ar y pryd megis sesiynau cwestiwn ac ateb, neu os yw'r athro'n sylwi ar unrhyw gamddeall yn iaith corff disgyblion ac yna'n eu holi ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn deall y dasg yn llawn. Ar y llaw arall y mae'r elfen a gynlluniwyd yn tynnu sylw at gynnydd disgyblion trwy gyfrwng tasgau gwaith cartref neu gwis cyflym sydd yn arddangos dealltwriaeth tymor byr disgyblion wrth symud ymlaen.

Cyfeiria Spendlove (2015:58) at Holt (1990) wrth amlinellu strategaethau 'asesu ar gyfer dysgu' er mwyn denu sylw pob disgybl mewn gwers. Mae'r rhain yn cynnwys hunanasesu neu asesu cyfoedion er mwyn cynnig cyfrifoldeb i'r disgyblion yn eu dysgu eu hunain. Dulliau arall a gynigiwyd ydyw (i) gosod targedau gyda'r disgyblion er mwyn eu cynnwys yn y dysgu; (ii) arddangos enghreifftiau er mwyn crybwyll y safon a ddisgwylir a'r ffordd o wella'u cyrhaeddiad er mwyn gwella hunanhyder disgyblion; (iii) defnyddio dull 'dim dwylo i fyny' er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn barod i ateb cwestiwn ar unrhyw bryd yn ystod y wers.

2. Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Addysgu trwy gyfrwng thema trawsgwricwlaidd yw ffocws Savage (2012). Cyfeiria at adolygiad Oftsed (2008) wrth nodi bod y dull hwn o addysgu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad cwricwlwm yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd. Unwaith i'r thema gael ei phennu, bydd y thema'n cael ei haddysgu gan yr athrawon pwnc gan ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ar draws y pynciau mewn cyfres o wersi penodedig sy'n cylchdroi o amgylch y thema ganolog.

Mae Taylor (2016:150-153) yn cynnig astudiaeth achos o sut y mae sgiliau allweddol yn cael eu datblygu trwy ddulliau asesu ar gyfer dysgu sydd yn cael eu fframio o gwmpas cyd-destunau trawsgwricwlaidd.

Trafoda Paran a Wallace (2016) y gwahaniaeth rhwng addysgu darllen ac addysgu llythrennedd. Cynigiant fod addysgu darllen fel sgil ieithyddol yn cynnig golwg cyfyngedig o'r broses gan ffocysu ar ddarllen a deall, ond dim arall. Ar y llaw arall, wrth drafod addysgu llythrennedd, maent yn cynnig bod yna bwrpas neu reswm ar gyfer y broses ddarllen. Edrychant ar lythrennedd fel modd o gyfathrebu a'r hyn y bydd y darlennydd yn gwneud gyda'r hyn y maent yn ei ddarllen.

3. Sgiliau Datrys Problemau, Creadigol a Meddwl yn Feirniadol

Wrth ddiffinio 'meddwl yn greadigol', cyfeiriaf at ddiffiniad Kent (2006), sef: "Productive thinking that results in novel, rather than routine outcomes."

Trafoda Beghetto et al (2017:251) fod yna berthynas agos rhwng dysgu a chreadigrwydd a bod y ddau yn gefnogol o'i gilydd. Ar drywydd tebyg i hyn, trafoda Montag-Smit a Maertz (2017:1) fod creadigrwydd yn medru bod yn rhan ddisgwyliedig ac annisgwyliedig yn y broses o syniadaeth. Mae creadigrwydd annigwylidig yn ymddwyn fel fflach neu sbardun gan un nad yw'n academaidd iawn yn y maes, ond mae ganddynt wybodaeth ddigonol i fedru cyflawni'r syniadaeth honno.

Noda Robinson (2016:104) fod athro o safon yn adnabod pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu. Dywed y dylai athrawon ffocysu ar ysbrydoli disgyblion, tanio'u brwdfrydedd ac ymwneud yn uniongyrchol gyda phob disgybl trwy greu amgylchedd lle mae'r disgyblion am ddysgu.

Dywed Beghetto et al (2017:251) fod dysgu creadigol yn gofyn am gyfleoedd i ddisgyblion ymwneud â chyd-destunau newydd a gwahanol ac yn cael cyfleoedd i rannu a derbyn adborth ar sail eu cyd-destunau personol eu hun. Yn gysylltiedig i hyn, mae Robinson (2016:107) yn nodi ei fod yn naturiol i blant fod yn chwilfrydig, ac mae'n hanfodol fod gwersi effeithiol yn parhau i ennyn y chwilfrydedd hwnnw. Â yn ei flaen i nodi bod addysgu'n bwerus iawn ar ffurf gwersi ymarferol sy'n seiliedig ar holi cyson ar

ran y disgyblion. Mewn gwersi yn y dull hwn, bydd athro o safon yn holi cwestiynau pryfoclyd sydd yn ysgogi disgyblion i ymchwilio'n ddyfnach er mwyn canfod atebion.

Trafoda Howell Major a Savin-Baden (2004:97) rôl yr athro o fewn dysgu wedi'i seilio ar ddatrys problemau a'r dulliau y gall yr athro eu defnyddio er mwyn ysgogi trafodaethau disgyblion wrth weithio mewn timoedd. Codant y sylw fod yna ragdybiaeth ynghylch trafodaethau ysgogol fod yna rôl gan yr athro i ymyrryd ar lafar er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen. Trafodant y posibilrwydd bod disgyblion yn fwy tawel o fewn yr ystafell ddosbarth nag y maent y tu allan iddi, megis yn y coridorau. Cynigiant hefyd fod yna ddau gategori o strategaethau y gall yr athro eu defnyddio er mwyn ysgogi: strategaethau di-eiriau a strategaethau geiriol. (Gweler rhestr o'r strategaethau yma ar dudalennau 98-99.)

Yn debyg i'r hyn a ddywedwyd yn y paragraff uchod, mae Beghetto et al (2017:252) yn trafod pwysigrwydd rôl y disgybl o fewn dysgu ac addysgu creadigol. Dywed yr awduron nid yn unig y dylent ddangos yr hyder a'r parodrwydd i gymryd risg wrth rannu eu syniadau a'u safbwyntiau unigol, ond dylent fod yn barod i wrando ar eu cyfoedion a'u cefnogi nhw er mwyn gwneud yr un peth. Yn dilyn hynny, dywedant fod hyn yn cynnwys gwybod sut i adeiladu ar syniadau ei gilydd a chyfrannu'n bwrpasol tuag at y dasg neu'r weithgaredd.

3. **CASGLIADAU O RAN FY NGHYNNYDD**

O fewn yr adran hon, byddaf yn cysylltu'r elfen lenyddol o ran theori addysgeg (a drafodwyd yn adran 2) gyda fy nghynnydd personol i wrth weithredu'r egwyddorion o fewn fy ngwersi yn 'Ysgol X'. Yn yr un modd ag yn adran 2, rhennir yr adran hon i'r tair is-ran berthnasol. Ceir nid yn unig gyfeiriadau at lenyddiaeth, ond byddaf yn cyfeirio at enghreifftiau o'm harferion i o'r ystafell ddosbarth gan adfyfrio ar fy nghynnydd dros y cyfnod ar leoliad.

1. **Asesu ar gyfer Dysgu**

Enghraifft 1: Hunanasesu ac Asesu Cyfoedion

Mae Moskal (2010:318) yn trafod bod hunanasesu, yn enwedig hunanasesu sydd wedi'i gysylltu gydag adborth, yn medru datblygu sgiliau dysgu a fydd o fudd iddynt trwy gydol eu bywydau gan gynyddu sgiliau hunan-fonitro'r disgyblion. Dadleua hefyd y gall hunanasesu ddylanwadu ar ddisgyblion i gyfeirio'u amser ac egni astudio mewn modd pwrpasol. Rydw i wedi defnyddio llawer o hunanasesu ac asesu cyfoedion er mwyn derbyn adborth oddi wrth ddisgyblion yn ystod fy nghyfnod yn 'ysgol X' a theimlaf ei fod yn ffordd effeithiol iawn o adnabod gwallau neu meysydd gwella, yn ogystal â chryfderau wrth gael cyfoedion i astudio gwaith ei gilydd a chynnig eu sylwadau eu hun.

Enghraifft 2: Kahoot ar gyfer asesu ar gyfer dysgu

Mae cysylltu yn ôl at ddysgu blaenorol yn elfen bwysig wrth ystyried asesu ar gyfer dysgu er mwyn mesur y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn ystod y wers flaenorol. Cysyllta hyn yn ôl gyda chyfeiriad Dixon a Worrell (2016) at Black a Wiliam (1998) wrth nodi bod asesu ar gyfer dysgu'n chwarae rôl bwysig wrth ystyried effeithiolrwydd yr addysgu ac a oes angen unrhyw 'ddiwygio'. Manteisiais ar gyfleoedd i greu amryw o gwisiau Kahoot amrywiol yn ystod fy nghyfnod ar leoliad, a sylwais bod disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r dull yma o 'asesu'. Gwelais ar rai adegau bod disgyblion yn gor-gyffroi yn ystod y cyfnodau yma, felly roedd angen eu ffrwyno gan fod yn wylidwrus nad oeddwn yn gor-ddefnyddio'r dull yma nes eu bod yn syrffedu.

Enghraifft 3: Olwyn Enwau

2. **Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd**

3. **Sgiliau Datrys Problemau, Creadigol a Meddwl yn Feirniadol**

4. **ARGYMHELLION AR GYFER DATBLYGIAD PELLACH**

Yn yr adran olaf hon, byddaf yn nodi sut y byddaf yn defnyddio dulliau a strategaethau addysgu a dysgu er mwyn sicrhau fy mod yn parhau i wneud cynnydd o'm rhan i fel athro. Cysylltaf y strategaethau gyda'r tair egwyddor addysgegol o gorff y traethawd gan drafod dulliau o gynnydd wrth eu gweithredu ymhellach o fewn yr ystafell ddosbarth.

O ran strategaethau asesu ar gyfer dysgu, hoffaf fynd ati i barhau i hwyluso'r broses o dderbyn adborth trwy ddefnyddio olwyn enwau ar hap. Teimlaf fod hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod fy nghyfnod yn 'ysgol X' gan ddenu mwy o ddisgyblion i deimlo'n fwy hyderus wrth gynnig atebion. Dull arall o hwyluso adborth ac adolygu blaenorol sydd wedi profi'n llwyddiannus yw defnyddio Kahoot. Nid yn unig ydyw hyn yn ddull effeithiol o ran asesu ar gyfer dysgu, ond y mae hefyd yn mireinio sgiliau digidol y disgyblion. Byddaf yn defnyddio'r 'dull dwylo i fyni' a gyfeiriwyd ato gan Dixon a Worrell (2016). Teimlaf fod y dull yma a'r olwyn enwau wedi llwyddo i ddatblygu cynhwysiant yn yr ystafell ddosbarth, rwyf am barhau i ddatblygu hynny i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ymateb yn ystod fy ngwersi.

Bydd datblygu fy addysgu trawsgwricwlaidd yn allweddol er mwyn sicrhau profiad cyfannol i ddisgyblion o fewn fy ngwersi. Nid yn unig imi ddatblygu'r hyn a addysgir, ond safon a lefel yr hyn a addysgir wrth ystyried a wyf yn herio'r disgyblion, yn bennaf wrth ystyried tasgau rhifedd a chymhwysedd digidol. Byddaf am arbrofi gyda'r addysgu yma, gan gyflwyno gwersi sydd yn ymestyn ac yn profi'r disgyblion yn rheolaidd o ran sgiliau allweddol megis gweithio gydag eraill, datrys problemau, ymresymu a mwy. Mae trafodaeth Savage (2012) ynghylch thema ganolog sydd yn ymestyn dros amryw bynciau o ddiddordeb i mi wrth ystyried fy addysgu i'r dyfodol. Hoffaf ystyried partneriaethau trawsbynciol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o sgiliau'n cael eu datblygu'n ddwys o amryw gyfeiriadau a chyd-destunau.

Fy mhrif argymhelliad ar gyfer y dyfodol fydd i barhau i gyflwyno gwersi creadigol eu naws a fydd yn arddangos fy mrwdfrydedd i dros fy mhwc, gan drosglwyddo'r brwdfrydedd yna i'r disgyblion. Byddaf am barhau i sefydlu amgylcheddau dysgu cadarnhaol o fewn fy nosbarthiadau (gan gyfeirio yn fy ôl at eiriau Robinson, 2016) ynglŷn â sefydlu amgylchedd lle mae'r disgyblion yn mwynhau dysgu. Rwyf hefyd yn cytuno'n gryf gyda Robinson (2016) wrth iddo nodi bod angen ennyn chwilfrydedd disgyblion er mwyn cynnal gwersi llwyddiannus, ac yr wyf am ddatblygu'r elfen honno o fewn fy addysgu gan wthio a chwestiynu disgyblion i ganfod atebion sydd yn ffres ac yn wreiddiol er mwyn sbarduno mwynhad ynddynt.

LLYFRYDDIAETH

Cyffredinol

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*: Llywodraeth Cymru.

Asesu ar gyfer Dysgu

Black, P. et al (2007). *Assessment for Learning*. McGraw-Hill Education: Maidenhead.

Dixon, D.D. & Worrell, F.C. (2016) *Formative and Summative Assessment in the Classroom yn Theory Into Practice: Vol.55* (tud 153-160)

Fautley, M. & Savage, J. (2008) *Assessment for learning and teaching in secondary schools*. Learning Matters: Exeter.

Moskal, B.M. (2010) *Self-Assessments: What are their valid uses?* yn *Academy of Management Learning & Education Vol.9* (tud 314-321)

Spendlove, D. (2015) *100 ideas for secondary teachers: assessment for learning*. Bloomsbury Education: London/New York.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Paran, A. & Wallace, C. (2016). *Teaching Literacy* yn Hall, G. *The Routledge Handbook of English Language Teaching*. Routledge: Abingdon/New York (tud 441-455)

Savage, J. (2012). *Moving beyond subject boundaries: Four case studies of cross-curricular pedagogy in secondary schools* yn *International Journal of Educational Research: Vol.55* (tud 79-88)

Sgiliau Datrys Problemau, Creadigol a Meddwl yn Feirniadol

Beghetto, R.A. et al. (2017) *Exploring creative learning in the classroom: a multi-method approach* yn *Thinking Skills & Creativity Vol.24*: Freund and Holling (tud 250-267)

Kent, M. (2006) *The Oxford Dictionary of sports science & medicine*. Rhydychen: Oxford University Press.

Robinson, K. (2016) *Creative Schools*. Llundain: Penguin Books.

Savin-Baden, M & Howell Major, C. (2004) *Foundations of problem-based learning*. Maidenhead: Society for Research into Higher Education & Open University Press.